

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 54/2015




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2014

Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru



Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru – 2014

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Sarah McDonough, Beaufort Research Ltd.

The logo for Beaufort Research, featuring the text 'beaufortresearch' in a white, lowercase, sans-serif font, centered within a solid purple rectangular background.

beaufortresearch

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Robert Lewis

Pennaeth Ymchwil Twristiaeth

Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Rhif ffôn: 0300 061 6026

E-bost: robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 20 Hydref 2015

ISBN: 977-1-4734-4858-2

© Hawlfraint y Goron 2015

The logo for the Open Government Licence (OGL), consisting of the letters 'OGL' in a bold, black, sans-serif font.

OGL

Welsh text if needed 'Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.'

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau.....	1
Crynodeb gweithredol	3
i. Ymweliadau 2014	3
ii. Ymweliadau 2013 – 2014.....	3
iii. Gweithrediadau.....	4
iv. Proffil ymwelwyr	5
1. Cyflwyniad	6
1.1 Cefndir	6
1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth	6
1.3 Amcanio.....	7
1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2014.....	7
2. Methodoleg.....	9
2.1 Cynnal y gwaith ymchwil	9
2.2 Dosbarthiad yr arolwg a'r gyfradd ymateb iddo.....	9
3. Deg atyniad uchaf am ddim ac â thâl (yn ôl nifer yr ymweliadau)	11
3.1 Deg atyniad uchaf â thâl	11
3.2 Deg atyniad uchaf am ddim	12
4. Ymweliadau 2014	13
5. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2014 / 2013	23
5.1 Cymariaethau cyffredinol	23
5.2 Cymharu tâl mynediad ar gyfer atyniadau â thâl.....	27
6. Gweithrediadau	31
6.1 Symudiad refeniw gros.....	31
6.2 Cyflogaeth 2014	34
6.3 Gwariant marchnata 2014 / 2013.....	37

7.	Proffil ymwelwyr 2014.....	38
8.	Atyniadau a ymatebodd yn 2014 (trefn yr wyddor)	41

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau

Hoffai Croeso Cymru a Beaufort Research ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a'r gweithredwyr yn y sector atyniadau a roddodd wybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno. Heb eu cymorth bob blwyddyn, ni fyddai'n bosibl casglu'r ffigurau hyn.

Amcangyfrifon / ffigurau ymwelwyr heb fod ar gael

Mae'r ffigurau a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi gyda phob ewylllys da ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan berchnogion yr atyniadau.

Os amcangyfrifwyd ffigurau ymwelwyr gan weithredwyr, nodir hyn gyda seren (*) yn dilyn nifer yr ymweliadau yn y tablau yn 2014 a 2013, ar ddiwedd yr adroddiad.

Mynediad

Os oes gan atyniad dâl mynediad, nodir y tâl mynediad ar gyfer oedolyn yn ystod tymor brig 2014. Os nad yw'n hysbys, gadewir y tâl mynediad yn wag.

Talfyriadau

CATEGORI	ACRONYM	ESBONIAD	
Rhanbarthau	M	Canolbarth Cymru	
	N	Gogledd Cymru	
	SE	De-ddwyrain Cymru	
	SW	De-orllewin Cymru	
Perchnogaeth	Cadw †	Cadw (Henebion Cymru)	
	NMW / G	Amgueddfa Cymru – (Llywodraeth)	
	LA	Awdurdod Lleol	
	NT †	Ymddiriedolaeth Genedlaethol	
	PO	Eiddo preifat (perchnogion unigol, sefydliad/ymddiriedolaeth preifat ac ati)	
Atyniadau twristiaeth	HP	Eiddo hanesyddol, cestyll, caerau, tai hanesyddol, palasau, henebion, safleoedd archeolegol, eiddo hanesyddol arall, canolfannau treftadaeth, mannau addoli	
	Thema	Parciau hamdden, parciau thema	
	MAG	Amgueddfeydd a/neu orielau celf, canolfannau gwyddoniaeth, canolfannau technoleg	
	IND	Atyniad diwydiannol/crefft	
	CP	Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall	
	WL	Atyniad bywyd gwyllt	
	R/T	Rheilffordd/tramffordd	
	OTH	Dulliau eraill o deithio / teithiau / trafndiaeth	
	Lleoliad	C	Arfordirol
		R	Gwledig
U		Trefol	
Math o gyflogai	FT	Llawn amser	
	PT	Rhan amser	
	UV	Gwirfoddolwr di-dâl	

†Bydd atyniadau yn y categorïau perchnogaeth Cadw neu Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond yn gallu cael eu rheoli gan sefydliadau o'r fath.

Drwy gydol yr adroddiad, bydd samplau o ddeg neu lai yn cael eu nodi mewn coch i nodi bod angen cymryd gofal wrth edrych ar y canlyniadau.

Crynodeb gweithredol

i. Ymweliadau 2014

- Bu 13.2 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg yn 2014. Cynhaliwyd tua 60.3% o'r ymweliadau hyn ag atyniadau â mynediad am ddim a 39.7% ag atyniadau â thâl.
- Gan fod mwyafrif o'r prif atyniadau yn cymryd rhan yn yr arolwg hwn, amcangyfrifir bod cyfanswm yr ymweliadau a gofnodwyd gryn dipyn yn uwch nag 80% o gyfanswm yr holl ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru. O blith yr holl atyniadau a ymatebodd i'r arolwg, roedd yr 17 ohonynt a oedd yn cofnodi 200,000 o ymwelwyr neu fwy yn cyfrif am 54.1% o'r holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2014.
- Gwnaeth atyniadau a oedd yn cymryd rhan yn Ne-ddwyrain Cymru dderbyn nifer fwyaf o ymwelwyr (39.6%), tra cafodd atyniadau yng Nghanolbarth Cymru'r nifer lleiaf o ymwelwyr (8.2%).
- Roedd pob un o'r atyniadau a ymatebodd i'r arolwg wedi derbyn 90,593 o ymweliadau ar gyfartaledd yn ystod 2014; gwnaeth hyn gynyddu i 124,608 yn Ne-ddwyrain Cymru, ac fe wnaeth ostwng i 60,015 yng Nghanolbarth Cymru.
- Cafodd amgueddfeydd ac orielau celf y cyfrannau uchaf o ymweliadau cyffredinol (32.2%), yna parciau gwledig/gerddi (26.8%) ac eiddo hanesyddol (21.2%).
- Yn 2014, cynhaliwyd 42.6% o'r ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru ag atyniadau sy'n eiddo preifat (3.3 miliwn ag atyniadau am ddim a 2.3 miliwn ag atyniadau â thâl).

i. Ymweliadau 2013 - 2014

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn dadansoddi tueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, drwy gymharu ffigurau ymweliadau yn ystod 2013 a 2014. Nodwch fod yr adran hon yn ymwneud yn unig â'r atyniadau hynny a wnaeth ddarparu data **yn ystod y ddwy flynedd** (106 o atyniadau).

- Bu cynnydd o 5.6% yn yr nifer o ymweliadau â'r atyniadau hyn rhwng 2013 a 2014, o 10.5 miliwn i 11.1 miliwn.

- Gwelodd yr atyniadau â thâl gynnydd o 6.9% yn nifer yr ymweliadau (4.0 miliwn i 4.2 miliwn), tra bod ymweliadau ag atyniadau am ddim wedi gweld cynnydd o 4.9% (6.6. miliwn i 6.9 miliwn).
- Gwelodd yr holl atyniadau ledled rhanbarthau Cymru cynnydd yn nifer yr ymwelwyr: yn fwyaf nodedig yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru (cynnydd o 11.0% a 9.2% yn y drefn honno). Gwnaeth nifer yr ymwelwyr gynyddu hefyd yng Ngogledd Cymru, gan 5.9%, ac yn Ne-ddwyrain Cymru, gan 1.7%.
- Bu cynnydd sylweddol o 54.2% yn y nifer o ymweliadau ag atyniadau diwydiannol a chreffft yn 2014 (hyd at 335,407 o 217,579). Bu hefyd cynnydd yn niferoedd yr holl categorïau atyniadau eraill, yn benodol atyniadau bywyd gwyllt (+15.0%) a pharciau gweledig (+11.5%).
- Cynyddodd taliadau mynediad cyfartalog ar gyfer oedolion 1.7% yn 2014 i £7.85 (i fyny o £7.72 yn 2013); gwnaeth taliadau mynediad ar gyfer plant gynyddu ychydig, gan 0.6% (£4.85 i £4.88).
- Roedd tuedd i daliadau mynediad oedolion fod ar eu huchaf yng Nghanolbarth Cymru (£8.29 ar gyfartaledd) ac ar eu hisaf yn Ne-orllewin Cymru (£5.07 ar gyfartaledd). O ran categorïau atyniadau, rheilffyrdd a thramffyrdd oedd yn codi'r pris uchaf ar gyfer mynediad i oedolion (£18.50 ar gyfartaledd), tra bod amgueddfeydd ac orielau celf yn codi'r pris isaf (£4.12 ar gyfartaledd).

iii. Gweithrediadau

- O gymharu'r wybodaeth ar refeniw gros a ddarparwyd gan yr atyniadau a wnaeth ymateb yn 2014 a 2013, roedd y sefyllfa yn llawer mwy cadarnhaol yn 2014, yn ddi-os o ganlyniad i gynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr. Nododd bron i hanner (47.2%) o'r atyniadau a oedd yn cymryd rhan, gynnydd mewn refeniw gros (o gymharu â 36.8% yn 2013). Mae hyn yn cymharu â 35.2% a oedd yn nodi lefel tebyg o refeniw gros (yn gymharol ddigymffwrdd o'r 36.8% a nodwyd yn 2013) ac un o bob pump (17.6%) yn nodi bod eu refeniw wedi gostwng (i lawr o 26.3% yn 2013).
- Bu cynnydd cyfartalog cyffredinol mewn refeniw o 9.1% yn 2014, yn nodedig yn uwch na'r cynnydd o 3.4% a welwyd yn 2013. Nododd amgueddfeydd ac orielau celf y cynnydd uchaf (+25.6%); mae hyn yn sylweddol uwch na'r cynnydd o 0.2% a nodwyd yn 2013. Nododd rheilffyrdd a thramffyrdd gynnydd nodedig mewn refeniw hefyd, i fyny 17.3% yn 2014 (o gymharu â'r gostyngiad o 5.0% a nodwyd yn 2013).

- Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, staff amser llawn oedd canran fwyaf y cyflogeion yn y sector (36.8%, i fyny o 26.3% yn 2013). Roedd gwirfoddolwyr di-dâl yn cyfrif am bron i 33.5% o'r cyflogeion yn y sector, ac roedd y 29.6% a oedd yn weddill yn gyflogeion rhan-amser.
- Roedd atyniadau thema a rheilffyrdd/tramffyrdd yn cyflogi staff parhaol yn bennaf (72.6% a 64.3% yn y drefn honno); roedd y gymhariaeth rhwng staff parhaol a staff tymhorol wedi'i rhannu'n fwy cyfartal mewn mathau eraill o atyniadau.
- Ni chynyddodd y mwyafrif o atyniadau eu gwariant marchnata yn 2014 o'i gymharu â 2013 (76.6%), tra bod cyfrannau cyfartal o tua un o bob deg wedi nodi eu bod naill ai wedi gostwng neu gynyddu eu gwariant marchnata (11.2% yn nodi un o'r ddau).

iv. Proffil ymwelwyr

- Ar gyfer yr holl fathau o atyniadau, roedd mwyafrif yr ymwelwyr yn oedolion (71.2%); derbyniodd rheilffyrdd a thramffyrdd y gyfran uchaf o ymwelwyr a oedd yn oedolion (80.0%), tra derbyniodd atyniadau bywyd gwyllt y gyfran uchaf o ymwelwyr a oedd yn blant (45.8%). Mae'r ffigurau hyn yn gyson â data 2013.
- Roedd rhywfaint yn llai na hanner yr ymwelwyr a fu mewn atyniadau yng Nghymru yn 2014 yn ymwelwyr lleol (46.7%), a chyfran debyg yn byw yng ngweddill y DU (44.8%); roedd 8.5% ohonynt yn ymwelwyr o dramor.
- Roedd eiddo hanesyddol wedi derbyn cyfran uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr o dramor (12.2%), tra bod atyniadau bywyd gwyllt wedi derbyn cyfran yn uwch na'r cyfartaledd o ran ymwelwyr lleol (68.4%). Roedd rheilffyrdd a thramffyrdd yn fwyaf tebygol o ddenu ymwelwyr o weddill y DU (77.5%).
- Roedd mwyafrif yr ymwelwyr ag atyniadau yng Nghymru yn 2014 yn ymwelwyr undydd (77.7%), gyda 22.3% yn aros yn yr ardal dros nos neu fel rhan o ymweliad hirach. Adroddodd rheolwyr eiddo hanesyddol fod 36.7% o'u hymwelwyr yn 2014 yn aros yn yr ardal.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gorchwyl y gwaith ymchwil yw:

- Pennu ac adrodd ar nifer yr ymwelwyr ag atyniadau ledled Cymru
- Dadansoddi data a gasglwyd am nifer yr ymwelwyr i nodi tueddiadau cyfredol
- Darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o ddata a geir yn yr arolwg gan gynnwys ffigurau ymwelwyr, gweithredoedd, cyllid, refeniw, marchnata, ac adnoddau dynol
- Dadansoddi data yn ôl categorïau atyniadau, pedwar rhanbarth economaidd Cymru, a pholisïau tâl mynediad (atyniadau am ddim yn erbyn atyniadau â thâl).

1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth

Mae'r gwaith ymchwil yn defnyddio'r ¹diffiniad canlynol o atyniad twristiaeth a gytunwyd arno gan y pedwar Bwrdd Croeso Cenedlaethol ar gyfer arolwg 2001, lle mae atyniad twristiaid yn:

“Atyniad lle mae'n ymarferol codi tâl mynediad ar gyfer y perwyl o weld pethau'n unig. Rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith barhaol wedi'i sefydlu, gyda'i brif bwrpas i ganiatáu mynediad i adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn allfa manwerthu yn bennaf neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatr neu ffilm.

¹Mae'r diffiniad hwn yn effeithio ar Ganolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel “safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig”, a fyddai'n ei heithrio o'r gwaith ymchwil hwn. Nid yw'r lleoliad yn syrthio'n ddestlus i'r diffiniad uchod ychwaith am nad yw'n “fusnes unigol, o dan reolaeth unigol”, a bod yn fanwl, ond yn hytrach mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis, ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

Rhaid iddo fod yn agored i'r cyhoedd heb archebu o flaen llaw, am gyfnodau cyhoeddedig o'r flwyddyn, a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid yn ogystal â thrigolion lleol. Yn ogystal, rhaid i'r atyniad fod yn un busnes unigol, o dan reolaeth unigol, fel y gall ateb cwestiynau economaidd ar referniw, cyflogaeth ac ati, a rhaid ei fod yn derbyn referniw yn uniongyrchol gan yr ymwelwyr."

1.3 Amcanion

Diben yr adroddiad hwn yw monitro tueddiadau yn y sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r sector i sefydliadau diwydiant a sefydliadau'r sector cyhoeddus a dosbarthu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2014

Mae economi a hinsawdd y DU yn ffactorau allweddol wrth ystyried twristiaeth ddomestig, a bydd eu heffaith yn cael ei hadlewyrchu yn y ffigurau yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb economaidd y DU yn ystod 2014

Gwnaeth economi'r DU dyfu o 2.6% yn 2014, y gyfradd gyflymaf ers 2007 ac i fyny o 1.7% yn 2013 (yn ôl data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Felly, roedd y DU ymhlith yr economïau mawr a wnaeth berfformio orau yn ystod 2014. Gwnaeth y sector gwasanaethau aros yn llewyrchus, gan iddo dyfu 0.8% yn ystod y flwyddyn.

Gwnaeth lefelau diweithdra barhau i ddisgyn i gyfradd o 6% (1.96 miliwn), tra oedd lefelau cyflogaeth ar eu huchaf erioed, yn cyrraedd 30.8 miliwn o bobl yn y gweithle (roedd 95% o'r rhain mewn cyflogaeth lawn amser). Gwelodd y DU y twf mwyaf mewn cyflogadwyedd yn y G7 – yn well na'r Unol Daleithiau, yr Almaen, Japan, Canada, a Ffrainc. Gwnaeth y twf yng nghyflogau cyfartalog gweithwyr y DU godi'n uwch na chwyddiant am y tro cyntaf mewn pum mlynedd, gan gynyddu 1.3% a rhagori ar gyfradd chwyddiant 1.2% y mynegai prisiau defnyddwyr.

Hanner cyntaf 2014 oedd y cyfnod mwyaf poblogaidd erioed o ran twristiaeth yn y DU: gwnaeth twristiaid 16.41 miliwn o wibdeithiau i'r DU rhwng Ionawr a Mehefin, cynnydd o 8% ar yr un cyfnod yn 2013. Fodd bynnag, gwnaeth Prydeinwyr a aeth dramor leihau ar eu gwariant gan 16% yn ystod chwe mis cyntaf 2014, i £12.63 biliwn, o gymharu â'r un cyfnod yn 2013. Gwelodd Mehefin 2014 y nifer mwyaf erioed o ymwelwyr o dramor (3.18 miliwn), cynnydd o 10% ers mis Mehefin 2013, a gwnaeth gwariant ymwelwyr gynyddu i record newydd, sef £1.97 biliwn.

Crynodeb o'r hinsawdd yn 2014

Roedd pob mis ac eithrio mis Awst yn gynhesach na'r cyffredin, a dyma'r flwyddyn fwyaf cynnes ar gofnod ar gyfer y DU. Roedd hefyd yn fwy gwlyb na'r cyffredin mewn nifer o leoliadau; digwyddiadau mwyaf eithafol y flwyddyn oedd y stormydd ym mis Ionawr a mis Chwefror, a ddaeth â gwyntoedd peryglus a llifogydd canoldirol ac arfordirol.

Bu tywydd braf yn ystod haf 2014 – yn enwedig yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Tymheredd cymedrig y DU ar gyfer 2014 oedd 9.9 °C, 1.1 °C yn uwch na'r cyfartaledd hirdymor ar gyfer 1981–2010. Roedd 2014 yn flwyddyn fwy heulog na'r cyfartaledd i'r mwyafrif o ardaloedd. Roedd nifer yr ysbeidiau heulog yn amrywio ym mhob rhanbarth, ond yn gyffredinol, roedd mis Mawrth, Gorffennaf a Rhagfyr yn fisoedd a oedd yn nodedig o heulog, tra oedd mis Mai a mis Hydref yn gymharol ddiflas.

2. Methodoleg

2.1 Cynnal y gwaith ymchwil

Cysylltwyd â chyfanswm o 423 o atyniadau ym mis Ebrill 2015 i gymryd rhan yn yr arolwg. Anfonwyd holiaduron papur i 191 ohonynt, a derbyniodd 232 e-bost a dolen i fersiwn ddwyieithog o'r arolwg ar-lein. Anfonwyd y deunyddiau arolwg yn yr iaith/ieithoedd o ddewis (Saesneg, Cymraeg, neu'n ddwyieithog).

Yn ogystal â hyn, gwnaeth Beaufort ymdrechion annibynnol i hybu ymateb, gan gysylltu ag awdurdodau lleol, Amgueddfa Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Cadw i gasglu ffigurau ymwelwyr (56 o atyniadau).

Roedd dyddiad cau'r arolwg ym mis Mehefin 2015, ac roedd y gwaith o gofnodi data'r ymatebion yn digwydd wedi hynny.

Roedd yr holiadur yn seiliedig ar yr hyn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol er mwyn sicrhau cymaroldeb a'r gallu i fonitro data tueddiadau, er cafodd rhai cwestiynau eu dileu yn 2015, er mwyn symleiddio'r arolwg.

2.2 Dosbarthiad yr arolwg a'r gyfradd ymateb iddo

Fel nodwyd eisoes, dosbarthwyd yr arolwg i gyfanswm o 461 o atyniadau y credwyd eu bod yn gweddu i'r diffiniad o atyniad twristiaeth: lleihad o 17 o atyniadau ers 2014. Mae'r cyfraddau ymateb ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd flaenorol i'w gweld yn Nhabl 2.1 isod:

Tabl 2.1:Y gyfradd ymateb

	2014	2013	2012
Nifer yr atyniadau a gafodd holiadur drwy'r post	478	478	481
Atyniadau sy'n cwblhau'r arolwg	146 (30%)	173 (36%)	190 (40%)
Atyniadau nad oedd modd iddynt ddarparu ffigurau	9 (2%)	10 (2%)	25 (5%)
CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB	155 (32%)	183 (38%)	215 (47%)

Felly, er bod yr ymateb i'r arolwg eleni yn 32%, y gyfran wirioneddol a ddarparodd ffigurau ymwelwyr oedd 31% (lleihad o 5% ar gyfradd ymateb 2013).

Yn ogystal, er mwyn canfod os oedd yr ffigurau ymwelwyr a ddarparwyd yn ddibynadwy, nododd gyfanswm o 135 o weithredwyr pa ddulliau y gwnaethant eu defnyddio i gyfrif eu ffigurau ymwelwyr: dangosir y canlyniadau yn Nhabl 2.2 isod. Mae'r ffigurau yn dod i uwch na 100% am fod nifer o ddulliau yn cael eu crybwyll gan rai atyniadau.

Tabl 2.2:Nifer yr ymwelwyr – dull cofnodi

Y dull a ddefnyddiwyd yn 2014	Nifer yr atyniadau	% yr atyniadau a wnaeth ddarparu data
Gwerthiant tocynnau a/neu werthiant archeb grŵp	76	56.2%
Cyfrif â llaw	47	34.8%
Cyfrif yn fecanyddol neu'n electronig	49	36.3%
Amcangyfrif a wnaed ar sail cyfrif sampl	4	3.0%
Arall *	13	9.6%

Sylfaen: atyniadau sy'n rhoi data ynghylch dulliau cyfrif (135)

* Roedd dulliau eraill yn cynnwys data a oedd yn seiliedig ar ddyfeisiadau monitro blaenorol, gwerthiannau ar-lein, a chofnodion llyfrau ymwelwyr

NODER: gellir cofnodi mwy nag un dull cofnodi

3. Deg atyniad uchaf am ddim ac â thâl

3.1 Deg atyniad uchaf â thâl

Yr atyniad â thâl a nododd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2014 oedd The LC yn Abertawe (774,617 o ymwelwyr). Hwn hefyd oedd yr atyniad â thâl a dderbyniodd y nifer mwyaf o ymwelwyr yn 2012 a 2013: gwnaeth niferoedd yr ymwelwyr gynyddu 8.7% yn 2014 o 712,616 yn 2013.

Yn 2014, roedd y mwyafrif o'r deg atyniad mwyaf poblogaidd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru (saith allan o ddeg), ac roedd pedwar allan o'r deg yn eiddo preifat. Roedd y rhai eraill wedi eu rhannu'n gyfartal rhwng awdurdodau lleol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac adeiladau sy'n eiddo i Cadw.

Roedd yr atyniadau hyn ar y brig yn cynnwys amrywiaeth o atyniadau thema a bywyd gwyllt, parciau gwledig, eiddo hanesyddol, a rheilffyrdd/tramffyrdd.

Cafodd y deg atyniad uchaf â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2014 gyfanswm o 2.7 miliwn o ymwelwyr, a oedd yn fwy na hanner (52.5%) o'r holl ymweliadau a wnaed ag atyniadau â thâl yn 2014 – am fwy o fanylion, gweler Tabl 3.1 isod.

Tabl 3.1: Deg atyniad uchaf â thâl 2014

Enw	Rhanbarth	Categori	Percheannog	Lleoliad	Nifer yr ymweliadau yn 2014	Nifer yr ymweliadau yn 2013	% newid	£ Oedolion	
1	The LC	De-orllewin Cymru	THEMA	PO	C	774,617	712,616	+8.7%	£7.00
2	Parc Antur Folly Farm	SWW	WL	PO	R	485,936	419,614	+15.8%	£10.25
3	Castell Caerdydd	SEW	HP	LA	U	272,327	NP*	-	£12.00
4	Gardd Bodnant	NW	CP	NT	R	191,015	178,102	+7.3%	£10.50
5	Castell Conwy	NW	HP	Cadw	C	186,486	174,920	+6.6%	£6.75
6	Tramffordd Pen y Gogarth	NW	R/T	LA	C	179,042	169,943	+5.4%	£6.50
7	Castell Caernarfon	NW	HP	Cadw	C	176,609	163,394	+8.1%	£6.75
8	Sw Mynydd Cymru a'r Gerddi Botaneg	NW	WL	PO	U	153,612	135,729	+13.2%	£9.95
9	Rheilffordd yr Wyddfa	NW	R/T	PO	R	131,144	110,378	+18.8%	£31.00
10	Erddig	NW	HP	NT	R	129,733	147,291	-11.9%	£10.30

* NP = ni ddarparwyd

3.2 Deg atyniad uchaf am ddim

Ymhlith yr atyniadau am ddim a wnaeth ddarparu data yn 2014, Canolfan Mileniwm Cymru wnaeth dderbyn y nifer uchaf o ymwelwyr (1.2 miliwn); cynyddodd nifer yr ymwelwyr â'r atyniad yn 2014 gan 8.6% o gymharu â 2013.

Roedd mwyafrif y deg atyniad uchaf am ddim naill ai'n amgueddfeydd neu'n orielau (pump allan o ddeg) neu'n barciau gwledig (pedwar allan o ddeg). Derbyniodd y deg atyniad uchaf am ddim a wnaeth ddarparu data yn 2014 gyfanswm o 4.7 miliwn o ymwelwyr, sef bron i chwech mewn bob deg (58.9%) o'r holl ymweliadau a wnaed ag atyniadau am ddim yn 2014 – am fwy o fanylion, gweler Tabl 3.2 isod.

Tabl 3.2: Deg atyniad uchaf am ddim 2014

Enw	Rhanbarth	Categori	Perchenong	Lleoliad	Nifer yr ymweliadau yn 2014	Nifer yr ymweliadau yn 2013	% newid
1 Canolfan Mileniwm Cymru ²	SEW	MAG	PO	U	1,197,566	1,102,520	+8.6%
2 Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	SEW	MAG	NMW / G	U	564,195	544,966	+3.5%
3 Amgueddfa Castell Cyfarthfa	SEW	MAG	LA	U	481,907	524,789	-8.2%
4 Amgueddfa Cymru	SEW	MAG	NMW / G	U	442,972	456,342	-2.9%
5 Parc Gwledig Pen-bre	SWW	CP	LA	C	440,000	367,172	+19.8%
6 Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan	MW	CP	PO	R	400,000	NP*	-
7 Hafod Eryri	NW	CP	PO	R	393,432	NP*	-
8 Amgueddfa Genedlaethol y Glannau	SWW	MAG	NMW / G	U	262,935	253,708	+3.6%
9 Cadeirlan Dewi Sant	SWW	HP	PO	C	257,000	255,000	+0.8%
10 Ffordd Goedwig a Chanolfan Ymwelwyr Cwm-carn	SEW	CP	PO	R	253,661	257,539	-1.5%

* NP = ni ddarparwyd

²Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel "safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig", yn syrthio'n ddestlus i'r diffiniad o atyniad, am nad yw'n "fusnes unigol, o dan reolaeth unigol", a bod yn fanwl, ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis, ac orielau. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

4. Ymweliadau 2014

Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o'r data ar ymweliadau ar gyfer 2014.

Noder: nid yw maint y sylfaen bob amser yr un peth oherwydd ni wnaeth pob ymatebwr gwblhau holl adrannau'r holiaduron. Mae'r rhai **nad** ydynt wedi cwblhau'r adrannau perthnasol wedi cael eu hepgor o'r tablau, **ond maen nhw wedi'u cynnwys** mewn manau eraill ar gyfer yr adrannau y gwnaethant eu cwblhau.

Cynhaliwyd 13.2 miliwn o ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg yn 2014: cynhaliwyd cyfran uwch o'r ymweliadau hyn ag atyniadau am ddim (60.3%) o gymharu ag atyniadau â thâl (39.7%).

Oherwydd bod mwyafrif o'r prif atyniadau yn cymryd rhan yn yr arolwg, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y nifer o ymweliadau a gofnodwyd yn llawer mwy na 80% o gyfanswm yr ymweliadau â'r holl atyniadau yng Nghymru. Ymhlith yr atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd yr 17 ohonynt a wnaeth gofnodi 200,000 o ymwelwyr neu fwy yn cyfrif am 54.1% o'r holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2014 – gweler Tabl 4.1 isod.

Tabl 4.1: Ymweliadau cyffredinol yn ôl math o fynediad yn 2014

Math o fynediad	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	% yr ymweliadau
Am ddim	64	7,971,157	60.3%
Â thâl	82	5,255,610	39.7%
CYFANSWM	146	13,226,767	100.0%

Sylfaen: atyniadau sydd wedi darparu data ar gyfer 2014

Gwnaeth atyniadau a oedd yn cymryd rhan yn Ne-ddwyrain Cymru dderbyn y nifer mwyaf o ymwelwyr (39.6%), tra cafodd atyniadau yng Nghanolbarth Cymru'r nifer lleiaf o ymwelwyr (8.2%).

O ran y mwyafrif o ranbarthau, roedd y gwahaniaeth rhwng ymweliadau â thâl ac ymweliadau am ddim yn eithaf cyfartal. Yr eithriad i hyn oedd De-ddwyrain Cymru, lle'r oedd mwy na phedair gwaith yn fwy o ymweliadau ag atyniadau am ddim (4.2 miliwn) o gymharu ag atyniadau â thâl (1.0 miliwn) – am fwy o fanylion, gweler Tabl 4.2 trosodd.

Tabl 4.2: Ymweliadau cyffredinol yn ôl math o fynediad a rhanbarth o Gymru yn 2014

Rhanbarth o Gymru	Am ddim			Â thâl			PAWB		
	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2014	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%
Canolbarth	7	652,411	4.9%	11	427,852	3.2%	18	1,080,263	8.2%
Gogledd	15	1,535,621	11.6%	33	1,991,966	15.1%	48	3,527,587	26.7%
De-ddwyrain	26	4,217,538 ³	31.9%	16	1,015,984	7.7%	42	5,233,522	39.6%
De-orllewin	16	1,565,587	11.8%	22	1,819,808	13.8%	38	3,385,395	25.6%
CYFANSWM	64	7,971,157	60.3%	82	5,255,610	39.7%	146	13,226,767	100.0%

Sylfaen: atyniadau sydd wedi darparu data ar gyfer 2014

NODER: NIFEROEDD SYLFAEN BACH IAWN

Mae Tabl 4.3 drosodd yn dangos sut mae cyfran yr **atyniadau** ym mhob rhanbarth yn berthnasol i gyfran yr **ymweliadau**.

Yng Nghanolbarth Cymru, Gogledd Cymru a De-orllewin Cymru, mae cyfran yr ymweliadau â'r atyniadau yn yr ardaloedd hyn ar y cyfan yn adlewyrchu cyfran yr atyniadau sydd ynddynt:

- Canolbarth Cymru – yn fras, degfed o'r atyniadau o gymharu â degfed o'r ymweliadau
- Gogledd Cymru – yn fras, traean o'r atyniadau o gymharu â thraean o'r ymweliadau
- De-orllewin Cymru – yn fras, chwarter o'r atyniadau o gymharu â chwarter o'r ymweliadau.

Fodd bynnag, yn Ne-ddwyrain Cymru, mae mwy o anghysondeb rhwng niferoedd yr atyniadau a niferoedd yr ymwelwyr. Er bod De-ddwyrain Cymru yn cynnwys 28.8% o'r holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd

³Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel "safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig", ac nid yw'n syrthio'n ddestlus i'r diffiniad fel atyniad, am nad yw'n "fusnes unigol, o dan reolaeth unigol", a bod yn fanwl, ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis, ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/ casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

ymweliadau â'r atyniadau hyn yn cyfrif am ganran gymharol uwch, sef 39.6% o'r holl ymweliadau yn 2014.

Roedd pob atyniad a wnaeth ymateb i'r arolwg wedi derbyn 90,594 o ymweliadau ar gyfartaledd yn ystod 2014. Cynyddodd hyn i 124,608 yn Ne-ddwyrain Cymru, ac fe wnaeth ostwng i 60,015 yng Nghanolbarth Cymru.

Tabl 4.3: Cyfran yr atyniadau ac ymweliadau fesul rhanbarth yn ystod 2014, yn ogystal â chyfartaledd nifer yr ymwelwyr yn 2014 a 2013 (samplau gwahanol)

Rhanbarth o Gymru	Sylfaen	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer yr ymweliadau fesul atyniad ar gyfartaledd yn 2014	Nifer yr ymweliadau fesul atyniad ar gyfartaledd yn 2013
Canolbarth	18	12.3%	8.2%	60,015	28,622
Gogledd	48	32.9%	26.7%	73,491	70,185
De-ddwyrain	42	28.8%	39.6%	124,608 ⁴	106,346
De-orllewin	38	26.0%	25.6%	89,089	70,153
CYFANSWM	146	100.0%	100.0%	90,594	73,274

Sylfaen: atyniadau a wnaeth ddarparu data ar gyfer 2014 (146) a 2013 (173)

Cafodd amgueddfeydd ac orielau celf y cyfrannau uchaf o ymweliadau cyffredinol (32.2%), yna parciau gwledig/gerddi (26.8%), ac eiddo hanesyddol (21.2%). Yn y cyfamser, atyniadau diwydiannol/crefft dderbyniodd y gyfran isaf (3.2%).

O ran amgueddfeydd ac orielau: roedd mwyafrif yr ymweliadau â'r math hwn o atyniad yn ymweliadau ag atyniadau am ddim (4.2 miliwn am ddim o gymharu â 99,896 â thâl). Mewn cyferbyniad â hyn, o ran eiddo hanesyddol, cynhaliwyd mwyafrif yr ymweliadau ag atyniadau â thâl (2.3 miliwn â thâl o gymharu â 476,849 am ddim).

⁴ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel "safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig", ac nid yw'n syrthio'n ddestlus i'r diffiniad fel atyniad, am nad yw'n "fusnes unigol, o dan reolaeth unigol", a bod yn fanwl, ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis, ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/ casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

Mae tabl 4.4. isod yn nodi mwy o fanylion ynghylch nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl, yn ôl y math o atyniad.

Tabl 4.4: Ymweliadau cyffredinol yn ôl math o fynediad a chategori'r atyniad yn 2014

Categori'r atyniad	Am ddim			Â thâl			PAWB		
	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2014	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%
Eiddo hanesyddol	9	476,849	3.6%	46	2,324,434	17.6%	55	2,801,283	21.2%
Amgueddfa / oriel gelf	26	4,152,636 ⁵	31.4%	7	99,896	0.8%	33	4,252,532	32.2%
Atyniad diwydiannol / crefft	8	238,772	1.8%	9	188,202	1.4%	17	426,974	3.2%
Parc gwledig / gardd / atyniad naturiol arall	20	2,666,900	23.2%	8	482,174	3.6%	28	3,149,074	26.8%
Atyniad bywyd gwylt	1	40,000	0.3%	4	739,589	5.6%	5	779,589	5.9%
Atyniad thema / parc / canolfan hamdden	Ddim yn berthnasol			4	978,690	7.4%	4	978,690	7.4%
Rheilffordd / tramffordd	-	-	-	3	360,186	2.7%	3	360,186	2.7%
Dulliau eraill o deithio / teithiau / trafnidiaeth	-	-	-	1	82,439	0.6%	1	82,439	0.6%
CYFANSWM	64	7,971,157	60.3%	82	5,255,610	39.7%	146	13,226,767	100.0%

Sylfaen: atyniadau sydd wedi darparu data ar gyfer 2014

NODER: RHAI NIFEROEDD SYLFAEN BACH IAWN

Mae Tabl 4.5 isod yn dangos cyfran yr **atyniadau** a wnaeth ymateb i'r arolwg yn ystod 2014 o gymharu â'r gyfran gymharol o **ymweliadau**, yn ôl categori'r atyniad. Mae eiddo hanesyddol ac atyniadau diwydiannol/crefft yn cyfrif am ychydig mwy na un o bob tri o'r holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg (37.7%), ond roedd ymweliadau ag atyniadau o'r fath yn cyfrif am un mewn pump o'r holl ymweliadau yn unig (21.2%). Mewn cyferbyniad â hyn, roedd amgueddfeydd ac orielau yn cyfrif am tua un ym mhob pump o'r atyniadau (22.6%), ond gwnaethant dderbyn un ym mhob tri ymweliad (32.2%).

⁵ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel "safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig", ac nid yw'n syrthio'n ddestlus i'r diffiniad fel atyniad, am nad yw'n "fusnes unigol, o dan reolaeth unigol", a bod yn fanwl, ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis, ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/ casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

Derbyniodd atyniadau â themâu gyfran gymharol uwch hefyd o ymweliadau o gymharu â mathau gwahanol o atyniadau, gan gyfrif am 2.7% o'r atyniadau sy'n cymryd rhan ac yn derbyn 7.4% o'r holl ymweliadau a wnaed yn ystod 2014 – gweler Tabl 4.5 isod.

Tabl 4.5: Cyfran yr atyniadau a'r ymweliadau fesul categori atyniad yn 2014, yn ogystal â nifer cyfartalog yr ymwelwyr yn 2014 a 2013 (samplau gwahanol)

Categori'r atyniad	Sylfaen	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer yr ymweliadau fesul atyniad ar gyfartaledd yn 2014	Nifer yr ymweliadau fesul atyniad ar gyfartaledd yn 2013
Eiddo hanesyddol	55	37.7%	21.2%	50,932	46,667
Amgueddfa / oriel gelf	33	22.6%	32.2%	128,865 ⁶	90,115
Atyniad diwydiannol / crefft	17	11.6%	3.2%	25,116	35,440
Parc gwledig / gardd / atyniad naturiol arall	28	19.2%	26.8%	126,610	84,954
Atyniad bywyd gwyllt	5	3.4%	5.9%	155,918	85,566
Atyniad thema / parc / canolfan hamdden	4	2.7%	7.4%	244,673	712,616
Rheilffordd / tramffordd	3	2.1%	2.7%	120,062	63,569
Dulliau eraill o deithio / teithiau / trafndiaeth	1	0.7%	0.6%	82,439	-
CYFANSWM	146	100.0%	100.0%	90,594	73,274

Sylfaen: atyniadau a wnaeth ddarparu data ar gyfer 2014 (146) a 2013 (173)

NODER: RHAI NIFEROEDD SYLFAEN BACH IAWN

⁶ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel "safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig", ac nid yw'n syrthio'n ddestlus i'r diffiniad fel atyniad, am nad yw'n "fusnes unigol, o dan reolaeth unigol", a bod yn fanwl, ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis, ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/ casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

Roedd 42.6% o'r ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn ystod 2014 yn cael eu gwneud i atyniadau sy'n eiddo preifat (3.3 miliwn ag atyniadau am ddim a 2.3 miliwn ag atyniadau â thâl).

Gwnaeth adeiladau sy'n eiddo i awdurdodau lleol dderbyn 26.5% o'r holl ymweliadau a wnaed â'r atyniadau a wnaeth gymryd rhan yn 2014, ac roedd mwyafrif yr atyniadau hyn yn rhai am ddim (21.5%) o gymharu ag atyniadau â thâl (5.0%). Roedd yr holl ymweliadau ag atyniadau Amgueddfa Cymru yn ymweliadau am ddim, gan fod yr un o'r atyniadau hyn yn codi tâl am ymweliad (12.6% o'r holl ymweliadau). O ran adeiladau sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, (9.0% o'r holl ymweliadau), roedd mwyafrif helaeth yr ymweliadau yn ymwneud ag atyniadau â thâl (8.7%) – am fwy o fanylion, gweler Tabl 4.6 isod.

Tabl 4.6: Ymweliadau cyffredinol yn ôl math o fynediad a pherchnogaeth yn 2014

perchnogaeth	Am ddim			Â thâl			PAWB		
	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau yn 2014	%
Cadw	4	107,044	0.8%	26	1,156,914	8.7%	30	1,263,958	9.6%
Amgueddfa Cymru (Llywodraeth)	7	1,670,523	12.6%	-	-	-	7	1,670,523	12.6%
Awdurdod Lleol	26	2,838,854	21.5%	10	666,788	5.0%	36	3,109,642	26.5%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	1	45,300	0.3%	18	1,151,366	8.7%	19	1,196,666	9.0%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	26	3,309,436 ⁷	25.0%	28	2,280,542	17.2%	54	5,589,978	42.3%
CYFANSWM	64	7,971,157	60.3%	82	5,255,610	39.7%	146	13,226,767	100.0%

Sylfaen: atyniadau sydd wedi darparu data ar gyfer 2014

NODER: RHAI NIFEROEDD SYLFAEN BACH IAWN

⁷ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel "safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig", ac nid yw'n syrthio'n ddestlus i'r diffiniad fel atyniad, am nad yw'n "fusnes unigol, o dan reolaeth unigol", a bod yn fanwl, ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/ casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, caiff Canolfan y Mileniwm ei chynnwys yn y tudalennau canlynol, ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

Mae Tabl 4.7 yn dangos cyfran yr atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg yn ystod 2013 o gymharu â'r gyfran gymharol o ymweliadau, yn ôl perchnogaeth yr atyniad.

Roedd atyniadau sy'n eiddo preifat yn cyfrif am ychydig mwy na thraean o'r sampl (37.0%) a dau o bob pum ymweliad (42.3%). Yn ogystal â hyn, roedd atyniadau a sy'n eiddo i awdurdod lleol yn cyfrif am chwarter o'r ymweliadau a'r atyniadau (24.7% a 26.5% yn y drefn honno).

Tra bod atyniadau sy'n eiddo i Cadw yn cyfrif am 20.5% o'r sampl, cawsant nifer lleiaf o ymweliadau cyffredinol. I'r gwrthwyneb, roedd atyniadau sy'n eiddo i Amgueddfa Cymru yn cyfrif am 4.8% yn unig o'r sampl, ond 12.6% o'r holl ymweliadau yn 2014 – am fwy o wybodaeth, gweler Tabl 4.7 drosodd.

Tabl 4.7: Cyfran yr atyniadau a'r ymweliadau yn ôl perchnogaeth yn 2014, yn ogystal â niferoedd cyfartalog yr ymwelwyr yn 2014 a 2013 (samplau gwahanol)

Perchnogaeth	Sylfaen	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2014	Nifer cyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad yn 2013
Cadw	30	20.5%	9.6%	42,132	40,805
Amgueddfa Cymru (Llywodraeth)	7	4.8%	12.6%	238,646	235,541
Awdurdod Lleol	36	24.7%	26.5%	97,379	77,750
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	19	13.0%	9.0%	62,982	64,759
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	54	37.0%	42.3%	103,518 ⁸	68,356
CYFANSWM	146	100.0%	100.0%	90,594	73,274

Sylfaen: atyniadau sydd wedi darparu data ar gyfer 2014 (146) a 2013 (173)

NODER: RHAI NIFEROEDD SYLFAEN BACH IAWN

Ymhlith yr holl atyniadau a wnaeth ymateb i'r arolwg yn 2014, dim ond 17 a wnaeth nodi iddynt dderbyn 200,000 neu fwy o ymweliadau yn ystod y flwyddyn – roedd ymweliadau â'r 17 atyniad hyn yn cyfrif am 54.1% o'r holl ymweliadau yn 2014. Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r atyniadau hyn godi tâl am fynediad (14), a gwnaethant dderbyn bron i saith ym mhob deg o'r holl ymweliadau ag atyniadau am ddim (70.5%). Roedd y tri atyniad â thâl, a oedd â'r nifer uchaf o ymwelwyr yn cyfrif am gyfran gymharol lai o'r holl ymweliadau â thâl (29.2%).

